# Bywyd Newydd i'r Hen Goleg

Canolfan dysgu, menter, diwylliant a lletygarwch i bawb.

# Cydnabod Rhoddwyr

**Mae angen eich cefnogaeth**

Helpwch ni drwy roi i Apêl yr Hen Goleg i sicrhau bod y prosiect trawsnewidiol hwn yn cyflawni ei botensial aruthrol. Diolch.

## Y Cambria

1. 24 Ystafell Wely 4*
2. Bwyty, Ystafelloedd Cyfarfod a Gweithgareddau

## Mynedfa Gyhoeddus ac Atriwm

1. Atriwm ac Ystafell Ddigwyddiadau
2. Caffi, Bwyty a Bar
3. Mynedfa Gyhoeddus

## Cymuned, Diwylliant, Lletygarwch

1. Llyfrgell: Y Lle
2. Yr Hen Neuadd: Man Amlbwrpas ac Arddangosfeydd
3. 31 Ystafell Wely 4*
4. Ystafelloedd Dysgu a Gweithgareddau
5. Ardal Gymunedol y Cwad ac Ardaloedd yr Oriel

## Cyfarfodydd a Deialog


6. Tŵr: Stiwdios Artistiaid
7. Canolfan Ddeialog
8. Ystafell Seddon

## Byd o Wybodaeth

1. Swyddfeydd Ymchwil ac Astudio
2. Canolfan Ddysgu
3. Canolfan Wyddoniaeth
4. Arddangosfa o Hanes y Brifysgol
5. Gofod Ieuenctid
6. Gofod Dysgu 24-awr i Fyfyrwyr

## Menter ac Arloesedd

1. Canolfan Menter a Busnes



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | 1872 150 2022

SCOTT · lawray architects penseiri · HOARE LEA · Mann Williams Consulting Civil and Structural Engineers · Austin-Smith:Lord · asbri · Mather & Co · Blake Morgan

Cronfa Gymunedol Community Fund · Cronfa Cymunedau Arfordir / Coastal Communities Fund · Garfield Weston Foundation · The Wolfson Foundation · Foyle Foundation · The Headley Trust

The Joy Welsh Educational Charitable Trust

The Gwendoline and Margaret Davies Charity


www.aber.ac.uk/hengoleg

+44 (0)1970 62 1568

hengoleg@aber.ac.uk

/HenGolegAber


@HenGolegAber


Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig. Rhif 1145141.

Cronfa Treftadaeth / Heritage Fund

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop / European Regional Development Fund

FFYNIANT BRO / LEVELLING UP



## Trosolwg

Bydd Bywyd Newydd i'r Hen Goleg yn un o'r prosiectau addysg, treftadaeth, diwyllianol a chymunedol mwyaf uchelgeisiol yng Nghymru.

Ein huchelgais yw trawsnewid yr Hen Goleg mewn i ganolfan dreftadaeth, ddiwylliannol a dysgu groesawgar a bywiog a fydd yn gatalydd pennaf ar gyfer adfywiad economaidd a chymdeithasol a chydlyniant cymdeithasol.

Ar gyfer ein myfyrwyr, bydd Hen Goleg yn ganolfan addysgu ac ymchwil ddeinamig a chynhwysol gydag allgymorth i ysgolion a cholegau Addysg Bellach ledled Cymru a rhaglenni arloesol o ymgysylltu â'r cyhoedd ag Addysg Uwch.

Ar gyfer ein cymuned, bydd yr Hen Goleg yn ffynhonnell dysgu, adloniant, creu swyddi a sgiliau.

Bydd yn gyrchfan treftadaeth Gymreig newydd gydag apêl ryngwladol i ymwelwyr ledled y byd.

Dyma'r pump parth:

## Y Cambria

Mae cynnwys Y Cambria fel rhan o brosiect Yr Hen Goleg yn ddatblygiad arwyddocaol a fydd yn gwella'n sylweddol ar y potensial i sicrhau manteision economaidd a chymunedol - gydag 28 gwely ychwanegol ar y lloriau uchaf, a mannau ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac addysgol/diwylliannol ar y llawr gwaelod a'r islawr;

## Mynedfa Gyhoeddus

Canolfan groesawu ymwelwyr, cyfleusterau gwirfoddoli, atriwm newydd trawiadol ac ystafell ddigwyddiadau gyda golygfeydd o'r môr, caffi/bwyty glan-môr newydd, bar a siop a mynediad i 31 o ystafelloedd gwely;

## Cymuned, Diwylliant, Lletygarwch


Gydag Orielau celf yn y Cwad ac o'i amgylch, ar gyfer arddangosfeydd parhaol a thros dro y Brifysgol a chasgliadau ei phartneriaid - orielau ar gyfer casgliadau'r Brifysgol sydd o arwyddocad cenedlaethol ac ar gyfer arddangos prif brosiectau ymchwil y Brifysgol. Bydd yr ardaloedd ar gyfer gwyliau, gweithgareddau a digwyddiadau yn cynnwys yr Hen Neuadd a'r Llyfrgell. Mae'r parth mawr hwn hefyd yn cynnwys ardaloedd ar gyfer Cyfarfodydd a Deialog a phrosiect blaenllaw Canolfan Ddeialog Gyntaf y Deyrnas Unedig ar gyfer 60 o gyfranogwyr mewn 'cylch' unigryw. Lleolir y Ganolfan wrth ymyl ystafelloedd dysgu a hyfforddi amlbwrpas ar gyfer myfyrwyr, ein cymuned ac ymwelwyr busnes, yn cynnwys ystafell Seddon a gafodd ei henwi ar ôl pensaer yr adeilad;

## Byd o Wybodaeth

Wedi'i ysbrydoli gan arwyddair y Brifysgol, bydd y parth hwn yn ysgogi dysgu sy'n agored i bawb, a fydd yn cynnwys Canolfan Wyddoniaeth ac ynddi sinema o'r radd flaenaf gyda phrofiadau rhithiol ar gyfer sioeau cyhoeddus, Bydd hefyd Amgueddfa'r Brifysgol, gydag arddangosfeydd o gasgliadau ac archifau'r Brifysgol; Canolfan Uwchefrydiau i arwain agweddau rhyngddisgyblaethol arloesol at heriau byd-eang; ardal creu prosiectau (Makerspace); gofodau astudio 24 awr i fyfyrwyr; gofod ieuenctid; ardaloedd dysgu gydol oes; 5 stiwdios artistiaid a stiwdio ar gyfer argraffwyr print. Bydd y parth hwn hefyd yn cynnwys gofodau i gyflwyno cyfleoedd dysgu cwricwlaidd a thu hwnt i ysgolion a cholegau yng nghefn gwlad gorllewin Cymru sy'n cyd-fynd a Chwricwlwm newydd Cymru o 2022;

## Menter ac Arloesedd

Hwb Menter Busnes ac ynddo 12 uned ac ardal gymunedol i annog entrepreneuriaid ifanc a busnesau creadigol a digidol, dau sector sy'n tyfu ac sy'n arbennig o bwysig i economi gorllewin Cymru. Bydd tenantiaid ac ymwelwyr yn arddangos, ymchwilio a phrofi eu cynnyrch - apiau, gemau a chymwysiadau rhithiol drwy arddangosiadau cyhoeddus a gweithgareddau wedi'i rhaglennu ar draws yr Hen Goleg ar gyfer cynulleidfaoedd eang, gan gynnwys ysgolion a cholegau â rhwydweithiau diwydiant a chyflenwyr;



# Cydnabod Rhoddwyr

Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r holl roddwyr sydd wedi cefnogi hyd yma.

Bydd ein Hapêl Codi Arian, y mwyaf ers i'r Brifysgol brynu'r Hen Goleg ym 1872. Mae rhoddion elusennol gan ein rhwydwaith fyd-eang o 60,000 o gyn-fyfyrwyr, ein cymuned ac ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol yn hanfodol i lwyddiant y prosiect.

Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o gyfleoedd i gydnabod rhoddwyr ar bob lefel i ysbrydoli rhoddion ac i gofnodi ein diolch am byth i'n rhoddwyr.

Fel rhoddwr, byddwch yn cael diweddariadau rheolaidd a gwahoddiadau i ddigwyddiadau arbennig trwy gydol y prosiect i drawsnewid yr adeilad nodedig hwn yn ganolfan o bwys ar gyfer addysg, diwylliant a menter mewn pryd ar gyfer ein canmlwyddiant a hanner.

Mae'r cynlluniau'n cydnabod pawb sydd wedi chwarae rhan holl bwysig i drawsnewid yr Hen Goleg a'r Brifysgol trwy gefnogi ein hapêl.

Rydym yn ddiolchgar i'r holl gyfranwyr a chenogwyr hynny sydd wedi ein cynorthwyo i ddylunio'r cyfleoedd cydnabod hyn gyda'n penseiri a thîm y prosiect.


Os hoffech drafod y dewisiadau o ran cydnabod rhoddwyr mewn rhagor o fanylder, neu drafod sut i wneud rhodd neu addewid i roi i'r apêl, cysylltwch â ni.

Diolch yn fawr.



## Pob rhodd

Bydd pob rhoddwr a enwyd (hynny yw, ac eithrio'r rhai sydd wedi rhoi'n ddienw) yn cael ei gydnabod yn ein Byd o Wybodaeth er mwyn i bawb eu gweld a'u dathlu yn ogystal â ar-lein




## Rhoi £500 +

Drwy roi cyfanswm o £500 neu fwy (trwy un rhodd neu roi'n rheolaidd), bydd eich cefnogaeth yn cael ei gydnabod ym mynedfa'r Hen Goleg trwy gyfrwng rhestr anrhydedd ddigidol. Bydd pawb sy'n rhoi dros £500 yn cael tystysgrif bersonol arbennig ac arni ddelwedd o'r Hen Goleg wedi'i dylunio gan yr Ysgol Gelf

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

Cylch Cyfrannu'r Is-Ganghellor



*"Rwy'n ymwybodol iawn mor ffodus fues i, nid yn unig i fynd i Aber, ond i fynd yno yn y dyddiau cyn ffioedd dysgu. Mae rhoi yn gwneud imi deimlo fod rhan ohonof yn dal yno yn Aberystwyth. Does yr un diwrnod gwaith sydd mor anhraethol ddiflas nad yw'n cael ei lonni drwy gofio y bydd cyfran o'r hyn rwy'n ennill yn mynd adre i Aber!"*

*Matthew Riley, BSc Astudiaethau Busnes (1996)*





## Dathlu'ch cefnogaeth

Mae'r Cylch Cyfrannu yn ffordd o gydnabod ein dyngarwyr sy'n gwneud rhoddion blynyddol eithriadol o £1,000. Gobeithiwn y bydd eu haelioni yn ysbrydoli eraill i ystyried rhoi, yn ogystal â'n hatgoffa am bwysigrwydd cefnogi addysg uwch a'i heffaith gadarnhaol ar bobl a'r gymdeithas.


Fe ddathlwn y rhoddwyr hyn sy'n arwain y ffordd o safbwynt dyngarwch yn y Brifysgol drwy eu croesawu iGylch Cyfrannu yr Is-Ganghellor.

## Pob rhodd dros £1,000

Mae Cylch Cyfrannu'r Is-Ganghellor yn ffordd o ddangos ein gwerthfawrogiad ac i gydnabod yr effaith trawsnewidiol y gall £1,000 ei gael – yn gyfunol ac yn unigol.

Fel rhywun sy'n rhoi £1,000 neu fwy bob blwyddyn, byddwch:

- Yn dod yn aelod o Gylch Cyfrannu'r Is-Ganghellor a wedi amlygu ar y Rhestr Flynyddol o Roddwyr
- Yn derbyn pin llabed arbenning
- Diweddariadau gan yr Is-Ganghellor
- Yn derbyn gwahoddiad blynyddol i ddigwyddiad arbennig i roddwyr a chydnabyddiaeth awtomatig yn yr Hen Goleg




"Cafodd Prifysgol Aberystwyth ei sefydlu drwy haelioni'r rhai oedd yn credu yng ngrym addysg i weddnewid bywydau. Mae fy Nghylch Cyfrannu yn adeiladu ar egwyddorion dyngarol y gorfennol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr y presennol ac ysgolheigion y dyfodol yn cael y cyfleoedd disgleiriaf posibl"

Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor

## Rhoi £1,000 +


Drwy roi cyfanswm o £1,000 (trwy un rhodd neu roi'n rheolaidd), fe'ch cydnabyddir trwy ysgrifennu eich enw ar feingefnau llyfrau neilltuol sydd wedi'u dylunio'n arbennig ac a fydd i'w gweld ar silffoedd is yn yr Hen Lyfrgell



## Rhoi £2,000 - £5,000

Drwy roi cyfanswm o £2,000 - £5,000 (trwy un rhodd neu roi'n rheolaidd), fe'ch cydnabyddir trwy ysgythru eich enw ar blât a osodir ar sedd yn un o'r tri phrif ofod yn ein Byd o Wybodaeth

**Cymerwch eich sedd!**





**£5,000** – Canolfan Ddeialog gyntaf y DU




£2,000 – Darlithfa Labordy'r Hynodion





£3,000 - Sinema 'Y Sgrîn'



## Rhoi £5,000 - £10,000


Drwy roi cyfanswm o £5,000 - £10,000 (trwy un rhodd neu roi'n rheolaidd), fe'ch cydnabyddir trwy osod eich enw ar deilsen ar y mur (yn ganolig neu'n fawr o ran maint) yn lobi yr Atriwm newydd, a'r teils hynny wedi'u dylunio'n arbennig




Cynllun Mynedfa i'r Atriwm | Atrium Entrances plan



Toriad drwy porth Yr Atriwm | Section through Atrium Lobby




Llyfrgell canolog, Lerpwl

Central Library, Liverpool



Palmant codi arian

Fundraising paving



Engreifftiau o arddangosfeydd Muriau Codi Arian

Examples of Fundraising Wall displays

## Rhoi £10,000 - £50,000+

Drwy roi cyfanswm o £10,000 - £50,000+ (trwy un rhodd neu roi'n rheolaidd), gellir cydnabod eich rhodd â phlac pwrpasol personol wedi'i osod mewn lleoliad sydd wedi ei gytuno yn un o brif ardaloedd cyhoeddus neu myfyrwyr yn yr Hen Goleg.

Mewn rhai amgylchiadau arbennig, gellir trafod cyfleoedd i enwi rhai rhannau allweddol o'r adeilad. Gallai hyn gynnwys placiau dwyieithog mawr mewn safleoedd amlwg ac enwi rhai ystafelloedd.




Rydym yn croesawu trafodaethau hefyd ynghylch sut y gallai placiau a dyluniadau coffáu ein helpu ni i ddangos sut mae'r Hen Goleg wedi cyffwrdd â bywydau cynifer o bobl o bedwar ban byd.

Os hoffech drafod gwneud rhodd neu addewid i roi :

ebostiwch - alumni@aber.ac.uk neu, ffoniwch - 01970 62 1568

Sganiwch yma i roi

Mae Prifysgol Aberystwyth University yn elusen gofrestredig (Rhif. 1145141)

Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN